Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru / Public Health Wales

# Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

## Ionawr 2023 Canfyddiadau Arolwg Panel

Cyhoeddwyd: Chwefror 2023

# Cefndir

- Mae **Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus** yn banel cynrychioliadol cenedlaethol o drigolion Cymru a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i alluogi ymgysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd i lywio polisi ac ymarfer iechyd y cyhoedd.
- Ar hyn o bryd yn ei gyfnod peilot, nod y panel yw recriwtio sampl cynrychioliadol cenedlaethol o drigolion 16+ oed i gymryd rhan mewn arolygon misol a rhoi cipolwg ar faterion iechyd y cyhoedd allweddol.
- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o arolwg Ionawr 2023, sy'n ymdrin â materion gan gynnwys llesiant meddwl, brechlynnau, anghydraddoldebau iechyd a chostau byw.
- Oni nodir yn wahanol, caiff data eu pwysoli i adlewyrchu demograffeg y boblogaeth genedlaethol. Ceir dadansoddiad demograffig o'r 1,072 o aelodau panel a gwblhaodd yr arolwg, a chrynodeb o ddulliau'r prosiect yn Atodiad 1.
- Rydym yn ddiolchgar iawn i drigolion Cymru sydd yn rhoi o'u hamser gwerthfawr i gymryd rhan yn y panel.





# Pwyntiau Cryno

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

- Cymerodd 1,072 o gyfranogwyr ran yn arolwg Ionawr 2023 (9 – 30 Ionawr).

## Llesiant Meddyliol

- Roedd **75%** o bobl yn cytuno'n gryf* ei bod yn bwysig bod pobl yn cymryd camau i amddiffyn a gwella eu llesiant meddyliol.
- Roedd **33%** yn dweud eu bod yn cymryd 'llawer' o gamau ar hyn o bryd i amddiffyn a gwella eu llesiant meddyliol; dywedodd 12% nad ydynt yn cymryd unrhyw gamau.
- Roedd **40%** yn cytuno'n gryf* eu bod yn gwybod pa gamau y gallant eu cymryd i amddiffyn a gwella eu llesiant meddyliol.

## Anghydraddoldebau Iechyd

- Roedd **31%** o bobl yn cytuno'n gryf mai'r amgylchiadau y mae plant yn cael eu geni iddynt sy'n pennu eu cyfleoedd ar gyfer iechyd da gydol eu hoes.
- Gofynnwyd i'r cyfranogwyr faint o broblem oedd gwahanol fathau o anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru yn eu barn nhw. Y mathau gafodd eu nodi amlaf fel 'problem enfawr' oedd:
  - Anghydraddoldebau mewn incwm a chyfoeth **(47%)**
  - Anghydraddoldebau rhwng ardaloedd mwy a llai difreintiedig **(45%)**
  - Anghydraddoldebau mewn canlyniadau addysg i blant **(36%)**

## Brechlynnau

- Mae **67%** of o bobl yn meddwl ei bod yn bwysig iawn* bod pobl yn cael brechlyn pan gaiff ei gynnig.
- Roedd **29%** yn chwilio am wybodaeth i'w helpu i benderfynu a ddylid derbyn y brechlyn olaf a gynigiwyd iddynt.

## Ymddygiad Cymryd Risg

- Wedodd **16%** o bobl bod nhw ar hyn o bryd yn ysmygu tybaco.

*Sgoriau o 9 a 10 ar raddfeydd 0 i 10

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Llesiant Meddyliol

*Rhoddwyd y diffiniad canlynol i gyfranogwyr: "Mae llesiant meddwl yn ymwneud â sut rydym yn meddwl, yn teimlo ac yn gweithredu. Rydyn ni'n profi llesiant meddwl da pan rydyn ni'n teimlo'n dda ac yn gweithredu'n dda. Mae llawer o bethau'n dylanwadu ar ein llesiant meddyliol gan gynnwys ein perthnasoedd a'n hamgylchedd, pethau sydd wedi digwydd neu sy'n digwydd i ni, a sut rydym yn ymateb iddynt. Mae yna bethau y gallwn ni i gyd eu gwneud i amddiffyn a gwella ein llesiant meddwl, yn yr un ffordd y gallai pobl gynnal diet iach i ofalu am eu hiechyd corfforol."*

# Llesiant Meddyliol

**Ar gyfer pob un o’r cwestiynau hyn, rhowch ateb ar raddfa o 0 i 10.**

| | Anghytuno’n gryf | | | | | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | | | | | Cytuno’n gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Rwy’n hyderus fy mod yn deall beth yw ystyr y term llesiant meddwl | <1% | <1% | <1% | <1% | <1% | 2% | 2% | 5% | 15% | 14% | 61% |
| Rwy’n meddwl ei bod yn bwysig bod pobl yn cymryd camau i amddiffyn a gwella eu llesiant meddwl | <1% | 0% | <1% | 0% | <1% | 3% | 2% | 6% | 14% | 10% | 65% |
| Rwy’n gwybod pa gamau y gallaf eu cymryd i amddiffyn a gwella fy llesiant meddyliol | 1% | 1% | <1% | 1% | 3% | 7% | 8% | 13% | 26% | 11% | 29% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: <1% ar gyfer pob datganiad

# Llesiant Meddyliol

## A ydych chi'n cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd er mwyn helpu i amddiffyn a gwella eich llesiant meddyliol?*




*Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Llesiant Meddyliol

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Mae amrywiaeth o gamau y gall pobl eu cymryd i amddiffyn a gwella eu llesiant meddyliol. Pa un o'r camau canlynol ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd neu y mae gennych ddiddordeb ynddo?***

| | Rwy'n gwneud hyn yn barod | Ddim yn gwneud hyn ond â diddordeb | Ddim yn gwneud hyn a dim diddordeb | Amh |
|---|---|---|---|---|
| Bod yn gorfforol weithgar | 67% | 25% | 5% | |
| Cael digon o gwsg | 53% | 44% | 2% | |
| Sicrhau cydbwysedd hwng bywyd a gwaith | 52% | 20% | 2% | 23% |
| Cysylltu â phobl | 72% | 18% | 10% | |
| Neilltuo amser ar gyfer hobïau | 72% | 24% | 3% | |
| Technegau anadlu | 40% | 28% | 31% | |
| Ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar | 30% | 28% | 41% | |
| Cysylltu â byd natur | 68% | 22% | 9% | |
| Gwneud gweithgareddau creadigol | 52% | 29% | 18% | |
| Dysgu sgiliau newydd | 45% | 42% | 13% | |
| Helpu pobl eraill | 73% | 18% | 7% | |
| Cymryd rhan mewn gweithgareddau/grwpiau cymunedol | 40% | 30% | 30% | |

*Gwell gennyf beidio â dweud: ≤2% ar gyfer pob datganiad; Amh - Amherthnasol

# Llesiant Meddyliol

## Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio orau eich profiad dros y pythefnos diwethaf:*^

| | Ddim o'r amser | Yn anaml | Rhywfaint o'r amser | Yn aml | Drwy'r amser |
|---|---|---|---|---|---|
| Rydw i wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol | 6% | 18% | 34% | 30% | 12% |
| Rydw i wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol | 4% | 12% | 31% | 37% | 17% |
| Rydw i wedi bod yn teimlo'n hamddenol | 5% | 17% | 42% | 26% | 10% |
| Rydw i wedi bod yn ymdopi â phroblemau yn dda | 2% | 8% | 36% | 36% | 18% |
| Rydw i wedi bod yn meddwl yn glir | 2% | 6% | 29% | 37% | 26% |
| Rydw i wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill | 3% | 13% | 31% | 33% | 21% |
| Rydw i wedi gallu gwneud fy mhenderfyniadau fy hun am bethau | 1% | 5% | 18% | 33% | 42% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: <1% ar gyfer pob datganiad

^Offeryn wedi'i Dilysu Graddfa Llesiant Meddyliol Fer Warwick-Caeredin © Prifysgol Warwick, 2006

# Unigrwydd



## Yn ystod yr wythnos ddiwethaf, pa mor aml ydych chi wedi teimlo'n unig?*

| | |
|---|---|
| Bob amser | 4% |
| Yn aml | 14% |
| Weithiau | 38% |
| Byth | 43% |

Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

# Llesiant Personol

**Ar gyfer pob un o’r cwestiynau hyn, rhowch ateb ar raddfa o 0 i 10.***

| | Ddim o gwbl | | | | | | | | | | Yn hollol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | *Cymedr* |
| Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi â'ch bywyd heddiw? | 2% | 1% | 2% | 4% | 6% | 11% | 12% | 21% | 21% | 10% | 8% | 7 |
| Ar y cyfan, i ba raddau ydych chi'n teimlo bod y pethau rydych yn eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil? | 3% | 2% | 2% | 3% | 6% | 9% | 10% | 21% | 23% | 13% | 12% | 7 |
| Ar y cyfan, pa mor hapus oeddech chi’n teimlo ddoe? | 4% | 1% | 3% | 4% | 7% | 11% | 10% | 15% | 19% | 15% | 12% | 7 |
| Ar y cyfan, pa mor bryderus oeddech chi’n teimlo ddoe? | 19% | 7% | 11% | 8% | 8% | 11% | 10% | 10% | 10% | 2% | 4% | 4 |

*Gwell gennyf beidio â dweud: <1% ar gyfer pob datganiad

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Strategaeth Hirdymor

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai'r meysydd canlynol y dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru fod yn canolbwyntio eu hymdrechion arnynt?***

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Hyrwyddo ymddygiad iach | 51% | 39% | 6% | 3% | 1% |
| Gwella llesiant meddyliol a chydnerthedd cymdeithasol | 57% | 36% | 5% | 2% | <1% |
| Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd | 49% | 40% | 7% | 3% | 1% |
| Cefnogi gwaith i ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar | 75% | 21% | 3% | 1% | <1% |
| Darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol er mwyn sicrhau'r iechyd a'r tegwch iechyd gorau posibl i'r boblogaeth | 67% | 26% | 5% | 1% | 1% |
| Newid yn yr hinsawdd | 35% | 34% | 17% | 9% | 4% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: <1% ar gyfer pob datganiad

# Ymgyrchoedd

## Ydych chi wedi gweld unrhyw negeseuon gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ddiweddar am ffyrdd o... ?*

Do | Naddo

Amddiffyn a gwella eich llesiant meddyliol




Cadw'n iach yn ystod y gaeaf




Cael brechiad rhag y ffliw/brechiad atgyfnerthu COVID-19




Cymryd gwrthfiotigau'n ddiogel




*Gwell gennyf beidio â dweud: <1% ar gyfer pob datganiad

# Brechlynnau

# Brechlynnau

## Ers mis Medi 2022, ydych chi wedi cael a) brechlyn COVID-19 a b) brechiad rhag y ffliw?

| | Brechlyn COVID-19 | Brechiad rhag y ffliw |
|---|---|---|
| Do – wedi'i gynnig i mi a ei dderbyn | 60% | 38% |
| Do – trefnais un fy hun | 5% | 15% |
| Na – wedi'i gynnig i mi ond heb ei gael | 10% | 13% |
| Na – heb gael ei gynnig i mi | 24% | 33% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: ≤1% ar gyfer pob datganiad

# Brechlynnau

## Ar raddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn cynrychioli 'ddim yn bwysig o gwbl' a 10 yn cynrychioli 'yn bwysig iawn', pa mor bwysig yw hi, yn eich barn chi, bod pobl yn cael brechlyn, megis ar gyfer COVID-19 neu'r ffliw, pan gynigir un iddynt?*

Ddim yn bwysig o gwbl — Yn bwysig iawn

| 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4% | <1% | <1% | 1% | 1% | 9% | 3% | 4% | 9% | 8% | 59% |

## Pan gynigir brechlyn COVID-19/brechiad rhag y Ffliw gan y GIG, a ydych yn ei gael yn gyffredinol?*




## Ydych chi'n adnabod pobl sy'n anfodlon a/neu sydd wedi gwrthod cael brechlynnau COVID-19 neu frechiadau rhag y ffliw pan fyddant wedi cael eu cynnig iddynt?*




*Gwell gennyf beidio â dweud: ≤2% ar gyfer pob datganiad

# Brechlynnau

Gofynnwyd i gyfranogwyr wedodd nad ydynt wedi derbyn brechlyn neu sy'n gwybod am rywun nad yw wedi cael un neu sy'n amharod i gael un:

**Nesaf, mae gennym wyth rheswm pam na fydd pobl yn cael brechlyn o bosibl. Pa rai o'r rhain sy'n rhesymau pwysig pam nad ydych chi a/neu bobl rydych yn eu hadnabod yn cael brechlyn?***

| | |
|---|---|
| Poeni am sgil-effeithiau posibl | 75% |
| Pryderu am ddiogelwch ac effeithiolrwydd brechlynnau | 71% |
| Ddim yn ymddiried yng nghyngor a gwybodaeth y Llywodraeth | 53% |
| Ddim yn teimlo eich bod yn wynebu risg o gael y clefyd | 39% |
| Bod gofyn i gael gormod o frechiadau | 34% |
| Yn credu bod gan y corff imiwnedd naturiol | 34% |
| Yn pryderu am ei effaith ar ffrwythlondeb neu fabi | 24% |
| Yn ei chael hi’n anodd mynd i apwyntiadau | 15% |
| Arall | 15% |

*Data heb eu pwysoli, wedi'i gyfyngu i'r rhai nad ydynt wedi derbyn brechlyn neu sy'n gwybod am rywun nad yw wedi cael un neu sy'n amharod i gael un (n=958)

# Brechlynnau

**Wrth feddwl am y brechlyn diwethaf a gynigiwyd i chi, a wnaethoch chi chwilio am wybodaeth i'ch helpu i benderfynu a ydych am ei gael ai peidio?***




*Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

# Brechlynnau

**Pe baech yn chwilio am wybodaeth i'ch helpu i benderfynu a ydych am gael brechlyn, pa rai o'r ffynonellau canlynol y byddech yn eu defnyddio?, a pa un o'r rheini fyddai eich ffynhonnell?***

| | Byddai'n defnyddio'r ffynhonnell | Y ffynhonnell fwyaf dibynadwy |
|---|---|---|
| Gwefan y GIG | 78% | 49% |
| Gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru | 51% | 10% |
| Gwefan Sefydliad Iechyd y Byd | 33% | 9% |
| Meddyg Teulu / Gweithwyr Iechyd Proffesiynol | 46% | 15% |
| Teulu, ffrindiau, a chyd-weithwyr | 25% | 2% |
| Safleoedd newyddion megis y BBC | 25% | 1% |
| Cyfryngau cymdeithasol | 8% | <1% |
| Chwiliadau cyffredinol ar y rhyngrwyd | 31% | 5% |
| Dylanwadwyr (barn enwogion) | 1% | 0% |
| Arall | 10% | 6% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: 3%

# Ymddygiad Cymryd Risg

# Ymddygiad ysmygu

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## O ran ysmygu tybaco, a defnyddio e-sigaréts, pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?

| | Ysmygu tybaco | Defnyddio e-sigaréts |
|---|---|---|
| Byth | 53% | 80% |
| Roeddwn yn arfer ysmygu ond nid wyf yn ei wneud bellach | 31% | 5% |
| Rwy'n ysmygu weithiau | 6% | 8% |
| Rwy'n ysmygu bob dydd | 10% | 6% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: <1% ar gyfer pob datganiad

# Canabis

## Ydych chi erioed wedi ysmygu canabis?*




Gofynnwyd i gyfranogwr sydd wedi defnyddio canabis:

## Pa mor aml yn ystod y 12 mis diwethaf ydych chi wedi defnyddio canabis?*

| | |
|---|---|
| Bob dydd | 6% |
| Unwaith yr wythnos | 3% |
| Unwaith bob mis | 4% |
| Yn llai na bob mis | 8% |
| Nid yn ystod y 12 mis diwethaf | 77% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

^ Data heb eu pwysoli, wedi'i gyfyngu i'r rhai sydd wedi defnyddio canabis (n=277)

# Canabis

Gofynnwyd i gyfranogwr sydd wedi defnyddio canabis yn y 12 mis diwethaf:

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich defnydd o ganabis ar hyn o bryd?***

| | |
|---|---|
| Rwy'n ysmygu canabis gyda thybaco (e.e. mewn sbliff/'joint') neu mewn 'blunt' (sigâr) | 55% |
| Rwy'n ysmygu canabis heb dybaco | 17% |
| Rwy'n fêpio canabis | 12% |
| Rwy'n cymryd canabis mewn bwyd neu ddiod | 22% |
| Rwy'n dabio echdynion o ganabis fel 'shatter', 'budder' neu gwyr | 3% |
| Rwy'n cymryd canabis mewn ffordd arall, gyda thybaco | 0% |
| Rwy'n cymryd canabis mewn ffordd arall, heb dybaco | 17% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 12% |

*Data heb eu pwysoli, wedi'i gyfyngu i'r rhai sydd wedi defnyddio canabis yn y 12 mis diwethaf (n=60)

# Canabis

## I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r defnydd o ganabis yn broblem yn fy nghymuned leol | 18% | 20% | 30% | 20% | 11% |
| Rwy'n deall y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â defnyddio canabis | 31% | 44% | 15% | 7% | 2% |
| Mae'r rhan fwyaf o'r bobl rwy'n eu hadnabod yn deall y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â defnyddio canabis | 14% | 31% | 28% | 20% | 7% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: 1% ar gyfer pob datganiad

# Hapchwarae

## I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae gamblo a'r niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn broblem yn fy nghymuned leol | 9% | 16% | 47% | 20% | 5% |
| Mae bod yn gaeth i gamblo yn debyg iawn i fod yn gaeth i gyffuriau neu alcohol | 40% | 43% | 10% | 5% | 2% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: ≤2% ar gyfer pob datganiad

# Hapchwarae

## Yn eich barn chi, pa mor debygol yw'r canlynol o achosi problem gamblo?*

| | Tebygol iawn | Gweddol debygol | Gweddol debygol | Annhebygol iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Cael personoliaeth gaethiwus | 57% | 31% | 5% | 2% | 5% |
| Dim digon o ewyllys | 37% | 35% | 13% | 5% | 9% |
| Bod yng nghwmni pobl sy'n gamblo llawer | 50% | 37% | 5% | 3% | 5% |
| Cael rhiant neu aelod arall o'r teulu sy'n gamblo | 40% | 40% | 7% | 4% | 8% |
| Digwyddiad trawmatig mewn bywyd rhywun | 16% | 43% | 17% | 8% | 15% |
| Cyflwr genetig neu gyflwr meddygol arall unigolyn | 12% | 33% | 20% | 15% | 19% |
| Gweld llawer o hysbysebion yn hyrwyddo gamblo | 41% | 43% | 8% | 2% | 5% |
| Ennill llawer o arian | 34% | 39% | 13% | 6% | 7% |

*Gwell gennyf beidio â dweud oedd: ≤1% ar gyfer pob datganiad

# Anghydraddoldebau Iechyd

# Cyfrifoldeb am Iechyd

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

**Yn eich barn chi, faint o gyfrifoldeb (os o gwbl) sydd gan y canlynol am sicrhau bod pobl yn cadw'n iach yn gyffredinol?***

| | Llawer | Cryn dipyn | Dim llawer | Dim cyfrifoldeb o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| Unigolion eu hunain | 81% | 16% | 2% | 0% |
| Y sector preifat | 39% | 45% | 11% | 3% |
| Y Llywodraeth | 49% | 36% | 11% | 2% |
| Y GIG | 46% | 43% | 9% | 2% |
| Awdurdodau Lleol | 34% | 45% | 15% | 5% |
| Cyflogwyr | 29% | 47% | 18% | 4% |

*Gwell gennyf beidio â dweud, Ddim yn gwybod: ≤1% ar gyfer pob datganiad

# Anghydraddoldebau Iechyd

**Yn eich barn chi, i ba raddau y mae'r mathau canlynol o anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru yn broblem? Mae'r opsiynau'n amrywio o 1 'ddim yn broblem o gwbl', i 5 'problem enfawr'.***

| | Ddim yn broblem o gwbl 1 | 2 | 3 | 4 | Yn broblem enfawr 5 | Ddim Yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Anghydraddoldebau rhwng cenedlaethau hŷn ac iau | 9% | 6% | 25% | 27% | 19% | 13% |
| Anghydraddoldebau rhwng dynion a menywod | 15% | 13% | 24% | 24% | 13% | 11% |
| Anghydraddoldebau rhwng cefndiroedd ethnig | 12% | 8% | 20% | 27% | 19% | 14% |
| Anghydraddoldebau rhwng ardaloedd mwy a llai difreintiedig | 3% | 3% | 14% | 29% | 45% | 6% |
| Anghydraddoldebau o ran iechyd a disgwyliad oes | 4% | 6% | 22% | 30% | 29% | 10% |
| Anghydraddoldebau o ran incwm a chyfoeth | 2% | 3% | 13% | 30% | 47% | 4% |
| Anghydraddoldebau o ran canlyniadau addysg i blant | 4% | 5% | 18% | 30% | 36% | 7% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: 1% ar gyfer pob datganiad

# Anghydraddoldebau Iechyd

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r datganiadau canlynol?*

| **Mae cymdeithas yn deg pan...** | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae'n gofalu am y bobl sy'n dlawd ac mewn angen, heb ystyried beth maent yn ei roi yn ôl i gymdeithas | 42% | 37% | 10% | 7% | 3% |
| Mae pobl sy'n gweithio'n galed yn ennill mwy na phobl eraill | 18% | 34% | 21% | 17% | 8% |
| Mae incwm a chyfoeth yn cael eu dosbarthu'n gyfartal rhwng pawb | 22% | 24% | 16% | 22% | 14% |
| Mae pobl o deuluoedd â statws cymdeithasol uchel yn mwynhau breintiau yn eu bywydau | 17% | 21% | 14% | 22% | 24% |

*Gwell gennyf beidio â dweud, Ddim yn gwybod: ≤1% ar gyfer pob datganiad

# Anghydraddoldebau Iechyd

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

## I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r datganiadau canlynol?*

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Dylai'r GIG wario llai ar drin salwch a mwy ar ei atal | 16% | 30% | 35% | 14% | 5% |
| Dylai cyflogwyr wneud mwy i ofalu am iechyd eu gweithwyr | 44% | 43% | 9% | 3% | 1% |
| Dylid gorfodi cwmnïau ac unigolion i fabwysiadu ymddygiadau i leihau newid yn yr hinsawdd | 41% | 39% | 12% | 5% | 3% |
| Dylai bwydydd iach gostio ychydig yn llai a bwydydd afiach ychydig yn fwy | 43% | 38% | 12% | 6% | 2% |
| Bydd terfynau cyflymder 20mya yn lleihau anafiadau traffig ffyrdd | 14% | 28% | 17% | 23% | 18% |
| Yr amgylchiadau y mae plant yn cael eu geni oddi tanynt sy'n pennu eu cyfleoedd ar gyfer iechyd da drwy gydol eu hoes | 31% | 49% | 10% | 7% | 3% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: ≤1% ar gyfer pob datganiad

# Newid yn yr Hinsawdd

**Yn eich barn chi, faint o ddylanwad (os o gwbl) y gallwch chi yn bersonol ei gael ar gyfyngu ar y newid yn yr hinsawdd?***




*Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

# Costau Byw

# Costau Byw

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rydw i'n deall sut y bydd newidiadau i gostau byw yn effeithio arnaf | 35% | 50% | 9% | 4% | 1% | 1% |
| Mae costau byw cynyddol yn gwaethygu ansawdd fy mywyd | 24% | 33% | 21% | 17% | 4% | 1% |
| Mae llawer o bobl rwy'n eu hadnabod yn ei chael hi'n anodd talu eu costau byw | 31% | 39% | 14% | 10% | 2% | 4% |
| Mae llawer o bobl rwy'n eu hadnabod yn gwario llai o arian ar bethau nad ydynt yn hanfodol a phethau moethus er mwyn helpu gyda chostau byw cynyddol | 38% | 42% | 11% | 4% | 2% | 3% |
| Rwy'n gwario llai o arian ar bethau nad ydynt yn hanfodol a phethau moethus er mwyn helpu gyda chostau byw cynyddol | 28% | 45% | 13% | 10% | 3% | <1% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: <1% ar gyfer pob datganiad

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

## Wrth feddwl am sefyllfa ariannol eich cartref, pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu orau eich sefyllfa bresennol?*




* Gwell gennyf beidio â dweud, Ddim yn gwybod: ≤1% ar gyfer pob datganiad

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Pryderon Cyfredol

# Pryderon Cyfredol

## Dros yr wythnos ddiwethaf, faint mae'r materion canlynol wedi bod yn eich poeni chi?*

| | Llawer | Ychydig | Ddim o gwbl |
|---|---|---|---|
| Eich sefyllfa ariannol | 30% | 46% | 24% |
| Costau byw | 38% | 49% | 12% |
| Eich gallu i wresogi eich cartref | 22% | 44% | 33% |
| Eich iechyd meddwl a'ch llesiant | 24% | 41% | 34% |
| Eich iechyd corfforol | 30% | 50% | 19% |
| Y rhyfel yn Wcráin yn dwysáu | 24% | 48% | 28% |
| Dal coronafeirws | 9% | 37% | 53% |
| Lledaeniad haint Strep A | 9% | 30% | 60% |

*Gwell gennyf beidio â dweud oedd: ≤1% ar gyfer pob datganiad

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus *Cymru* | Time to Talk Public Health *Wales*

## Eisiau bod yn rhan o'r Panel?

Mae recriwtio i Banel Iechyd y Cyhoedd Amser i Siarad yn barhaus gan ein bod am siarad ag ystod eang o unigolion ledled Cymru.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn 16+ oed, dyma'ch cyfle i gael eich clywed.

**SiaradICCymru.com**

**01663 761976**

**SiaradICCymru@wales.nhs.uk**



GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales


icc.gig.cymru

Ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk

02920 227744

Iechyd Cyhoeddus Cymru

@IechydCyhoeddus


**Eisiau dysgu mwy am sut i fyw bywyd iach a llewyrchus?**

**Eisiau darganfod sut i helpu eich cymuned i ffynnu?**

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.**

World Health Organization Collaborating Centre • On Investment for Health and Well-being •


**Tîm y Prosiect:** Dr Catherine Sharp | Yr Athro Karen Hughes

SiaradICCymru@wales.nhs.uk


Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO CC) ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Atodiad

Demograffeg y Sampl

Dulliau

# Demograffeg y Sampl

| | | Sampl* | Poblogaeth** |
|---|---|---|---|
| Rhyw# | Gwryw | 34% | 49% |
| | Benyw | 65% | 51% |
| | Arall | 1% | -$ |
| Oedran (blynyddoedd)# | 16-29 | 6% | 21% |
| | 30-49 | 27% | 29% |
| | 50-69 | 44% | 31% |
| | 70+ | 23% | 19% |
| Cwintel amddifadedd^ | 1 (Mwyaf) | 14% | 19% |
| | 2 | 18% | 20% |
| | 3 | 21% | 21% |
| | 4 | 21% | 21% |
| | 5 (Lleiaf) | 25% | 20% |

***N=1,072; ** 16+ oed**

# Cyfwerthoedd poblogaeth o: ONS Amcangyfrifon o boblogaeth y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Canol 2020. www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland

^Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-diweddariad-llawn-ir-mynegai-gyda-graddfeydd-2019

$Data heb fod ar gael

# Demograffeg y Sampl

| | | Sampl* | Poblogaeth** |
|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd^ | Gwyn | 97% | 95% |
| | Ethnigrwydd cymysg | 1% | 1% |
| | Asaidd neu Asaidd Pryndeinig | 1% | 2% |
| | Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Cymraeg neu Du Prydeinig | <1% | 1% |
| | Ethnigrwydd arall | <1% | 1% |
| | Gwell gennyf beidio â dweud | <1% | -$ |
| Bwrdd Iechyd# | BIP Aneurin Bevan | 18% | 19% |
| | BIP Betsi Cadwaladr | 24% | 22% |
| | BIP Caerdydd a'r Fro | 14% | 16% |
| | BIP Cwm Taf Morgannwg | 13% | 14% |
| | BIP Hywel Dda | 14% | 12% |
| | BIP Addysgu Powys | 5% | 4% |
| | BIP Bae Abertaw | 11% | 12% |

*N=2,000; ** 16+ oed; BIP – Bwrdd Iechyd Prifysgol; ^Mae amcangyfrifon ethnigrwydd y boblogaeth ar gyfer pob oed oherwydd nad oes data ar gael ar gyfer trigolion 65+ oed nad ydynt yn Wyn; Ystadegau Cymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity; #Amcangyfrifon poblogaeth 16+; Ystadegau Cymru, https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Health-Boards/populationestimates-by-lhb-age ; $Data heb fod ar gael.

# Dulliau

- Gosodwyd targed o 2,500 o aelodau'r panel er mwyn cael sampl arolwg misol o tua 1,000 o ymatebion, gydag amcangyfrif o gyfraddau ymateb i arolygon misol yn uchafswm o 50%.
- I gyrraedd ystod o unigolion, defnyddiwyd tri dull recriwtio:
  - Ffon
  - Cyfryngau cymdeithasol
  - Wyneb yn wyneb
- Cafodd cwmni ymchwil i'r farchnad proffesiynol (DJS Research Limited) ei gaffael i gynnal y recriwtio a'r arolygon misol.
- o Defnyddiwyd samplu cwota haenog wrth recriwtio dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Cwotâu wedi'u cymhwyso i:
  - Daearyddiaeth (Bwrdd Iechyd)
  - Oed
  - Rhyw
  - Cwintel Amddifadedd (MALC*)
- Roedd targedu cyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar fylchau demograffig mewn recriwtio. Cwblhaodd aelodau'r panel arolwg recriwtio cychwynnol a gofynnir iddynt gwblhau arolygon 15-20 munud bob mis. Cynhelir arolygon misol ar-lein neu dros y ffôn, yn dibynnu ar ddewis y cyfranogwyr.

*Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae rhagor o fanylion methodolegol ar gael ym mhrotocol y prosiect.